Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD GWENER, 26AIN MAI, 2023

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 18 Mai 2023)

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes (Cadeirydd)

John Brynmor Hughes

Arwyn Herald Roberts

Aelodau Lleol

PARC GWYLIAU BRYN TEG, LLANRUG

Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

SUNNY SANDS, TAL Y BONT

Y Cynghorydd Eryl Jones - Williams

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. CAIS AMRYWIO TRWYDDED EIDDO - PARC GWYLIAU BRYNTEG, LLANRUG, GWYNEDD, LL55 4RF 6 - 11

10:00am

PARC GWYLIAU BRYNTEG, LLANRUG, GWYNEDD, LL55 4RF

I ystyried y cais

5. CAIS AMRYWIO TRWYDDED EIDDO NEW HORIZONS, PARC CARAFANAU SUNNYSANDS, TAL Y BONT, GWYNEDD 12 - 15

11:30am

NEW HORIZONS, PARC CARAFANAU SUNNYSANDS, TAL Y BONT, GWYNEDD LL43 2LQ

I ystyried y cais

TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

PWYLLGOR:	**IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**
DYDDIAD:	**26 Mai 2023**
TEITL:	**CAIS AM AMRYWIAD O DRWYDDED EIDDO – PARC GWYLIAU BRYN TEG, LLANRUG, GWYNEDD, LL55 4RF**
PWRPAS:	**ER PENDERFYNIAD**
AWDUR:	**PENNAETH AMGYLCHEDD**

1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am amrywiad o drwydded eiddo ar gyfer Parc Gwyliau Bryn Teg Llanrug, Caernarfon LL55 4RF oddiwrth Park Holidays Ltd., Bexhill-on-Sea. Gwneir y cais mewn perthynas â cheisio'r hawl i wneud newidiadau i gynllun lleoliad ardal drwyddedig Bar y Lolfa a'r ardal fwyta yn unig. Yn ogystal , gofynnir am yr hawl i ychwanegu'r gweithgareddau trwyddedig Dramâu, Bocsio/Paffio a Restlo, a pherfformiadau o ddawns tu mewn yn unig ddydd Llun i ddydd Sul 9:00 y bore tan hanner nos .

1.2 Cadarnheir y bydd pob rhan arall o'r cynllun amlinelliad ardal drwyddedig yn aros yr un fath, ac y bydd y gweithgareddau trwyddedig ac oriau sydd ar y drwydded gyfredol yn aros yr un fath . Hefyd gofynnir am yr hawl i newid amod ar y drwydded er mwyn gallu cydymffurfio gyda'r newidiadau i'r cynlluniau amlinellol.

1.3 Nid yw'r ymgeisydd yn cynnig unrhyw amodau ychwanegol i'r hyn sydd ar atodlen weithredol y drwydded gyfredol, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

1.4 Nid oes unrhyw newid i'r oriau gweithgareddau trwyddedig, nac i'r amodau yn yr atodlen weithredol.

1.5 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.6 Derbyniwyd sawl gwrthwynebiad gan breswylwyr cyfagos; manylion ym mhellach ymlaen yn yr adroddiad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr amrywiad arfaethedig yn llawn :

Trwydded Presenol/Current Licence		**Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence**	
Oriau Agor / Opening Hours			
Dydd Sul/Sunday	24awr	Dydd Sul/Sunday	24awr
Dydd Llun/Monday	24awr	Dydd Llun/Monday	24awr
Dydd Mawrth/Tuesday	24awr	Dydd Mawrth/Tuesday	24awr
Dydd Mercher/Wednesday	24awr	Dydd Mercher/Wednesday	24awr
Dydd Iau/Thursday	24awr	Dydd Iau/Thursday	24awr
Dydd Gwener/Friday	24awr	Dydd Gwener/Friday	24awr
Dydd Sadwrn/Saturday	24awr	Dydd Sadwrn/Saturday	24awr

Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activites	
Dramau/Plays: Dan Do:: Indoors Dim ar y drwydded gyfredol. Not on the current licence	**Dramau/Plays: Dan Do:: Indoors** Dydd Sul/Sunday 09:00 - 24:00 Dydd Llun/Monday 09:00 - 24:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 - 24:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00 - 24:00 Dydd Iau/Thursday 09:00 - 24:00 Dydd Gwener/Friday 09:00 - 24:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 - 24:00
Ffilmiau/Films: Dan do :Indoors Dim ar y drwydded gyfredol. Not on the current licence	**Ffilmiau/Films: Dan do :: Indoors** Dydd Sul/Sunday 09:00 - 24:00 Dydd Llun/Monday 09:00 - 24:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 - 24:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00 - 24:00 Dydd Iau/Thursday 09:00 - 24:00 Dydd Gwener/Friday 09:00 - 24:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 - 24:00
Digwyddiadau Chwaraeon dan do :: Indoor Sporting Events: Dim ar y drwydded gyfredol. Not on the current licence	**Digwyddiadau Chwaraeon dan do :: Indoor Sporting Events:** Dydd Sul/Sunday 09:00 - 24:00 Dydd Llun/Monday 09:00 - 24:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 - 24:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00 - 24:00 Dydd Iau/Thursday 09:00 - 24:00 Dydd Gwener/Friday 09:00 - 24:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 - 24:00
Adloniant bocsio a restlo: Boxing or wrestling Dan do :: Indoors Dim ar y drwydded gyfredol. Not on the current licence	**Adloniant bocsio a restlo: Boxing or wrestling Dan do :: Indoors** Dydd Sul/Sunday 09:00 - 24:00 Dydd Llun/Monday 09:00 - 24:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 - 24:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00 - 24:00 Dydd Iau/Thursday 09:00 - 24:00 Dydd Gwener/Friday 09:00 - 24:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 - 24:00

Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors	**Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**
Dydd Sul/Sunday 09:00 - 24:00 Dydd Llun/Monday 09:00 - 24:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 - 24:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00 - 24:00 Dydd Iau/Thursday 09:00 - 24:00 Dydd Gwener/Friday 09:00 - 24:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 - 24:00	Fel trwydded gyfredol :: same as current licence
Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors	**Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**
Dydd Sul/Sunday 09:00 - 24:00 Dydd Llun/Monday 09:00 - 24:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 - 24:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00 - 24:00 Dydd Iau/Thursday 09:00 - 24:00 Dydd Gwener/Friday 09:00 - 24:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 - 24:00	**Dim newid**
Perfformiadau Dawns/Performance of Dance: Dim ar y drwydded gyfredol/not on current licence	**Perfformiadau Dawns/Performance of Dance: Dan Do:: Indoors** Dydd Sul/Sunday 09:00 - 24:00 Dydd Llun/Monday 09:00 - 24:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 - 24:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00 - 24:00 Dydd Iau/Thursday 09:00 - 24:00 Dydd Gwener/Friday 09:00 - 24:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 - 24:00
Cyflenwi lluniaeth hwyr y nos :Provision of Late Night refreshment	**Cyflenwi lluniaeth hwyr y nos :Provision of Late Night refreshment**
Dydd Sul/Sunday 23:00 - 24:00 Dydd Llun/Monday 23:00 - 24:00 Dydd Mawrth/Tuesday 23:00 - 24:00 Dydd Mercher/Wednesday 23:00 - 24:00 Dydd Iau/Thursday 23:00 - 24:00 Dydd Gwener/Friday 23:00 - 24:00 Dydd Sadwrn/Saturday 23:00 - 24:00	**Dim newid/ no change**
Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises	**Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**
Dydd Sul/Sunday 09:00 - 02:00 Dydd Llun/Monday 09:00 - 02:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 - 02:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00 - 02:00 Dydd Iau/Thursday 09:00 - 02:00 Dydd Gwener/Friday 09:00 - 02:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 - 02:00	Dim newid / no change

Gwneir cais i amrywio'r drwydded eiddo a gofynnir am newid yr amod canlynol er mwyn cyd fynd gyda'r newidiadau i'r cynllun amlinellol – The application to vary the premises licence is made and it is requested that the following condition is amended so as to incorporate the changes to the layout plans - **'Maer eiddo yn gweithredu yn unol â pholisi iechyd a diogelwch syn ymwneud â pharatoi bwyd. Rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau wastad yn hygyrch i bobl anabl, a bydd staff wastad yn rhoi cymorth pan fo angen. Mae cynwysyddion ar yr eiddo wedi eu gwneud o wydr gwydn. Ni chaiff cwsmeriaid fynd â chynwysyddion agored megis gwydrau a photeli or bar, ac eithrio ir ardal batio o flaen y pwll nofio ac ir ardal batio gyferbyn âr brif fynedfa ir bar uchaf.'** 'The premises operate in accordance with a health and safety policy involved in the preparation of food. We ensure that our services are always accessible for disabled persons and staff will always assist when necessary. Containers on the premises are of toughened glass. Customers are not allowed to take from the bars open containers such as glasses and open bottles, except onto the patio area in front of the swimming pool and on the patio area adjacent to the main entrance of the upper bar.'	**Mae'r amod diwygiedig fel a ganlyn -** The proposed amended condition is as follows – **'Maer eiddo yn gweithredu yn unol â pholisi iechyd a diogelwch syn ymwneud â pharatoi bwyd. Rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau wastad yn hygyrch i bobl anabl, a bydd staff wastad yn rhoi cymorth pan fo angen. Mae cynwysyddion ar yr eiddo wediu gwneud o wydr gwydn. Ni chaiff cwsmeriaid fynd â chynwysyddion agored megis gwydrau a photeli agored tu allan i'r ardaloedd trwyddedig fel y danghosir ar y cynlluniau amlinellol a atodir i'r Drwydded Eiddo'** 'The premises operate in accordance with a health and safety and safety policy involved in the preparation of food. We ensure that our services are always accessible for disabled persons and staff will always assist when necessary. Containers on the premises are of toughened glass. Customers are not allowed to take from the bars open containers such as glasses and open bottles outside the licenced areas as shown on the layout plans attached to this Premises Licence

2. <u>Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu</u>

2.1 Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn union yr un fath a'r drwydded gyfredol ar wahân i'r amodau ychwanegol a argymhellir , gweler y tabl uchod.

2.2 Gweler manylion llawn y mesurau hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn atodlen weithredol y drwydded gyfredol yn yr atodiad i'r adroddiad .

3. <u>YMGYNGHORIAD</u>

3.1 Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	**SYLWADAU**
Preswylwyr lleol	1 Llythyr ac 9 e byst - gwrthwynebiad
Adran Gwarchod y Cyhoedd	Sylwadau ar y cais drafft
Heddlu Gogledd Cymru	Dim gwrthwynebiad
Aelod lleol	e bost yn gwrthwynebu
Cyngor Cymuned	E bost yn gwrthwynebu

3.2 **Preswylwyr cyfagos -** Gwrthwynebir ar sail yr amcan trwyddedu o Atal Niwsans Cyhoeddus yn bennaf, ond hefyd mae ambell i fater wedi ei godi sy'n berthnasol i'r amcan drwyddedu o sicrhau diogelwch y cyhoedd

3.3 Mae pob gwrthwynebiad a dderbyniwyd gan breswylwyr cyfagos, yn nodi profiadau o aflonyddwch oherwydd sŵn yn deillio o'r parc gwyliau dros y blynyddoedd diwethaf . Mae amryw o drigolion yn nodi fod y sŵn wedi bod yn ddigon drwg ac yn digwydd digon rheolaidd fel y bu iddynt gwyno ar sawl achlysur i'r aelod lleol, ac i'r Cyngor. Mae rhai preswylwyr yn nodi fod y problemau wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf o dan y Perchnogion presennol; ac mae honiad gan un ymatebydd fod sŵn hyd yn oed wedi tarddu o weithgareddau ym Mharc Bryn Teg pan oedd mesurau caeth o dan Reoliadau Rheoli Haint Covid yn parhau mewn lle.

3.4 Nodir yn rhai o'r ymatebion fod achlysuron lle nad oedd drysau a ffenestri yn cael eu cau yn ystod adloniant tu mewn i'r adeilad; ac fel canlyniad fod sŵn i'w glywed yn glir ac uchel mewn anheddau tu hwnt i'r parc.

3.5 Mae sawl ymatebydd yn nodi eu bod wedi cwyno yn uniongyrchol i reolwyr Bryn Teg , ond nad yw hyn wedi arwain at unrhyw welliant yn yr aflonyddwch sŵn o gwbl.

3.6 Mae rhai o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn gweithio shifftiau , neu yn gweithio gartref, ac mae'r aflonyddwch sŵn felly yn creu trafferthion yn ystod y dydd yn ogystal â gyda'r hwyr.

3.7 Gweler fod sawl ymatebydd yn nodi fod poteli gwydr yn cael eu gwagio i gynhwysyddion ailgylchu tu allan yn hwyr yn y nos ar ôl i weithgareddau trwyddedig ddod i ben. Mae hyn er waethaf y ffaith fod amod ar atodlen weithredol gyfredol yr eiddo sydd yn nodi nad yw hyn i fod i ddigwydd - *'Bydd y gwaith o glirio sbwriel megis poteli a'u rhoi mewn cynwysyddion tu allan i'r ardaloedd bar yn digwydd ar adeg pan fydd yn amharu cyn lleied â phosib ar breswylwyr y parc'.*

3.8 **Pryderon Diogelwch y cyhoedd -** mae un ymatebydd o'r farn fod ardal y bar yn fychan iawn ar gyfer niferoedd cwsmeriaid a fwriedir; ac mae sawl ymatebydd yn nodi fod y ffordd at fynedfa Bryn Teg yn gul , prysur a pheryglus.

3.9 **Pryderon aelod lleol a Chyngor Cymuned** Mynegodd Clerc y Cyngor Cymuned fod nifer fawr o alwadau gan drigolion yn gwrthwynebu'r cais oherwydd pryderon am barhad a chynnydd aflonyddwch sŵn yn tarddu o weithgareddau trwyddedig presennol ac arfaethedig ar Barc Bryn Teg. Fe gynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Cyngor i drafod y pryderon. Ar sail y pryderon hyn , fe ddaeth y Cynghorwyr Cymuned i'r casgliad fod rhaid gwrthwynebu'r cais - ar y sail fod y problemau sŵn sydd wedi tarddu o Fryn Teg yn debygol o waethygu gydag ychwanegiad gweithgareddau fel dangos reslo a bocsio - gan fod cefnogwyr chwaraeon o'r fath yn dueddol o fod yn aflafar. Deallir fod rheolwyr y Parc wedi cael cyfarfod gydag aelodau'r Cyngor Cymuned a rhai trigolion ; ac nad oedd y trigolion yn argyhoeddedig o'r addewidion a wnaethpwyd.

3.10 Mae'r cynghorydd Lleol yn cydnabod fod y cwmni yn gyflogwr pwysig yn yr ardal; ac yn cyfrannu tuag at economi'r ardal. Er hyn, noder ei fod wedi derbyn amryw o gwynion am aflonyddwch sŵn ers iddo gael ei ethol yn gynghorydd yn 2017; a bod y cwynion yn cynyddu yn ystod wythnosau'r Haf pryd mae drysau a ffenestri ar agor.

3.11 Gwelir fod y Cynghorydd yn gwneud pwynt dilys fod 300 o garafanau wedi ei lleoli ar Barc gwyliau Bryn Teg; ac er yn lleoliad gwledig ; fod amryw o anheddau wedi eu lleoli ar gyrion y parc.

3.12 Ymhellach, mae'r Cynghorydd yn nodi iddo ddod a'r problemau aflonyddwch sŵn i sylw swyddogion Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor; a'i fod yn ymwybodol fod y swyddogion wedi trafod y problemau sŵn gyda rheolwyr y Parc; ac er i'r swyddogion roi cyngor ar leihau sŵn nad oedd yna unrhyw welliant wedi bod i'r sefyllfa.

3.13 Mae'r cynghorydd yn argymell fod penderfyniad ar y cais yn cael ei ohirio hyd nes y bydd perchnogion a rheolwyr y Parc yn ymdrechu i roi mesurau rheoli a lliniaru effaith sŵn effeithiol mewn lle ar gyfer y gweithgareddau trwyddedig presennol sy'n cael eu cynnal ar y safle.

3.14 Barn swyddogion Gwarchod y Cyhoedd - Mae swyddogion wedi cadarnhau fod cwynion sŵn wedi eu derbyn gan drigolion lleol am weithgareddau trwyddedig ar y Parc Gwyliau, a bod ymgais wedi bod i gael rheolwyr y Parc i liniaru'r sŵn.

3.15 Derbyniwyd cadarnhad hefyd fod cyfreithwyr ar ran y perchnogion wedi cysylltu gyda swyddogion Gwarchod y Cyhoedd i gyflwyno cais drafft am sylwadau. Roedd y cais drafft yn gofyn am y gweithgareddau trwyddedig ychwanegol tu mewn a thu allan. Cytunodd cynrychiolydd cyfreithiol yr ymgeisydd i gyflwyno cais am weithgareddau trwyddedig ychwanegol tu mewn yn unig gan fod y swyddog wedi datgan fod cwynion sŵn wedi eu derbyn yn dilyn cais Rhybudd Digwyddiad Dros Dro diweddar am ddarllediad ffilm tu allan. Ymhellach, cadarnhaodd y swyddog fod cwynion sŵn yn cael eu derbyn am weithgareddau trwyddedig ar y parc o dan y drwydded bresennol.

4.0 Casgliadau ac argymhelliad

4.1 Mae'r ymgeisydd wedi ceisio ymdrechu i ryw raddau i gydnabod fod problemau sŵn drwy gysylltu gyda swyddogion Gwarchod y Cyhoedd am sylwadau ar gais drafft i amrywio trwydded y safle.

4.2 Mae cyfle er hynny wedi ei golli i gydnabod a mynd i'r afael yn llawn gyda'r problemau sŵn. Er bod y cais a gyflwynwyd ond yn gofyn am gynnal gweithgareddau trwyddedig ychwanegol i'r un oriau a'r drwydded gyfredol, tu mewn yn unig; nid yw'r ymgeisydd yn cynnig cyfyngu gweithgareddau trwyddedig adloniant y drwydded **gyfredol** i fod tu mewn yn unig.

4.3 Yn ogystal, mae'r ymgeisydd wedi methu cydnabod fod angen cynnwys mesurau mwy effeithiol i reoli sŵn yn y r atodlen weithredol, a ddim wedi cynnig gwelliant na mesurau pellach. Noder o'r atodlen weithredol y drwydded bresennol a welir yn yr atodiad i'r adroddiad mai dim ond y cymal canlynol a gynigir fel mesur i sicrhau nad oes niwsans cyhoeddus - *' Mae lleoliad yr eiddo yma mor anghysbell fel na fyddai'n achosi niwsans i unrhyw berson syn preswylio yn y cyffiniau. Bydd y gwaith o glirio sbwriel megis poteli a'u rhoi mewn cynwysyddion tu allan i'r ardaloedd bar yn digwydd ar adeg pan fydd yn amharu cyn lleied â phosib ar breswylwyr y parc.*

4.4 Mae'r cymal hwn yn yr atodlen weithredol yn anghywir yn ei asesiad nad yw gweithgareddau trwyddedig yn mynd i greu niwsans oherwydd bod y lleoliad yn anghysbell. Mae amryw o anheddau wedi eu lleoli yn agos i'r Parc . Yn ogystal, mae ymatebwyr i'r cais hwn wedi tystio nad yw'r un amod sŵn yn yr atodlen yn cael ei weithredu; gyda sawl un wedi cwyno fod poteli yn cael eu gwagio i gynhwysyddion allanol yn hwyr yn y nos.

5. ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn gwrthod y y cais ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd ; os na all yr ymgeisydd gynnig mesurau rheoli sŵn yn yr atodlen weithredol , a cyfyngu gweigareddau trwyddedig tu mewn yn unig.

PWYLLGOR:	**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**
DYDDIAD:	**26 MAI 2023**
TEITL:	**CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO - NEW HORIZONS, PARC CARAFANAU SUNNYSANDS, TAL Y BONT, GWYNEDD LL43 2LQ**
DIBEN:	**ER PENDERFYNIAD**
AWDUR:	**PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD**

1. **CAIS A DDERBYNIWYD**

1. Atodir cais i Amrywio Trwydded Eiddo ar gyfer New Horizons, Parc Carafanau Sunnysands, Tal y Bont, Gwynedd LL43 2LQ. Mae'r cais yn cael ei gyflwyno mewn perthynas ag ymestyn yr oriau Alcohol, ac oriau Cerddoriaeth Fyw ac wedi ei Recordio.

2. Mae'r drwydded bresennol yn caniatáu'r Gweithgareddau Trwyddedig uchod yn unig tan 11yh dydd Sul-Sadwrn.

3. Mae'r ymgeisydd yn cynnig yr amodau diwygiedig fel a ganlyn-

- **Oriau Alcohol a Cherddoriaeth Fyw (Dan do) estynedig o 11yh i 2yb.**
- **Oriau Cerddoriaeth Fyw (Dan do) estynedig o 11yh i 12yb.**
- **Darparu Adloniant a Gweithgareddau dyddiol ar gyfer perchnogion y carafanau a phobl ar eu gwyliau er mwyn cynnig Lleoliad Gyda'r Hwyr.**

5. Nodir hefyd ar y cais, sydd yn yr atodiad, fod yr ymgeisydd wedi datgan y bydd cerddoriaeth Fyw ac wedi'i Recordio dim ond yn digwydd dan do.

6. Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol, a'i fod felly yn ddilys.

7. Derbyniwyd gwrthwynebiad gan un o'r trigolion cyfagos; mae rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad.

8. Derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu; mae rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad.

Gweler y tabl atodol am fanylion llawn yr amrywiad arfaethedig:

Trwydded Presenol/Current Licence	**Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence**
Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activites	
Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Dan do : Indoors Dydd Sul/Sunday 12:00 - 22:30 Dydd Llun/ Monday 11:00 - 23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 11:00 - 23:00 Dydd Mercher/Wednesday 11:00 - 23:00 Dydd Iau/Thursday 11:00 - 23:00 Dydd Gwener/Friday 11:00 - 23:00 Dydd Sadwrn/Saturday 11:00 - 23:00	**Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do : Indoors** Dydd Sul/Sunday 12:00 - 24:00 Dydd Llun/ Monday 12:00 - 24:00 Dydd Mawrth/Tuesday 12:00 - 24:00 Dydd Mercher/Wednesday 12:00 - 24:00 Dydd Iau/Thursday 12:00 - 24:00 Dydd Gwener/Friday 12:00 - 24:00 Dydd Sadwrn/Saturday 12:00 - 24:00
Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do : Indoors Dydd Sul/Sunday 12:00 - 22:30 Dydd Llun/ Monday 11:00 - 23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 11:00 - 23:00 Dydd Mercher/Wednesday 11:00 - 23:00 Dydd Iau/Thursday 11:00 - 23:00 Dydd Gwener/Friday 11:00 - 23:00 Dydd Sadwrn/Saturday 11:00 - 23:00	**Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do : Indoors** Dydd Sul/Sunday 12:00 - 02:00 Dydd Llun/Monday 12:00 - 02:00 Dydd Mawrth/Tuesday 12:00 - 02:00 Dydd Mercher/Wednesday 12:00 - 02:00 Dydd Iau/Thursday 12:00 - 02:00 Dydd Gwener/Friday 12:00 - 02:00 Dydd Sadwrn/Saturday 12:00 - 02:00
Perfformiadau Dawns/Performance of Dance: Dan do : Indoors Dydd Sul/Sunday 12:00 - 22:30 Dydd Llun/Monday 11:00 - 23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 11:00 - 23:00 Dydd Mercher/Wednesday 11:00 - 23:00 Dydd Iau/Thursday 11:00 - 23:00 Dydd Gwener/Friday 11:00 - 23:00 Dydd Sadwrn/Saturday 11:00 - 23:00	**Perfformiadau Dawns/Performance of Dance: Dan do : Indoors** Dydd Sul/Sunday 17:00 - 23:00 Dydd Llun/Monday 17:00 - 23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 17:00 - 23:00 Dydd Mercher/Wednesday 17:00 - 23:00 Dydd Iau/Thursday 17:00 - 23:00 Dydd Gwener/Friday 17:00 - 23:00 Dydd Sadwrn/Saturday 17:00 - 23:00

Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo : Both on and off the Premises				**Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar yr Eiddo : On the Premises**			
Dydd Sul/Sunday	12:00	-	22:30	Dydd Sul/Sunday	11:00	-	02:00
Dydd Llun/ Monday	11:00	-	23:00	Dydd Llun/ Monday	11:00	-	02:00
Dydd Mawrth/Tuesday	11:00	-	23:00	Dydd Mawrth/Tuesday	11:00	-	02:00
Dydd Mercher/Wednesday	11:00	-	23:00	Dydd Mercher/Wednesday	11:00	-	02:00
Dydd Iau/Thursday	11:00	-	23:00	Dydd Iau/Thursday	11:00	-	02:00
Dydd Gwener/Friday	11:00	-	23:00	Dydd Gwener/Friday	11:00	-	02:00
Dydd Sadwrn/Saturday	11:00	-	23:00	Dydd Sadwrn/Saturday	11:00	-	02:00

2. **Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

2.1 Roedd yr ymgeisydd wedi cynnwys mesurau ychwanegol, fel y gwelir yn rhan M y cais yn yr atodiad i'r adroddiad hwn ar sut y bydd y pedwar Amcan Trwyddedu yn cael eu hyrwyddo - fel

- Cadw drysau a ffenestri ar gau yn ystod adloniant
- Bod gan bob ardal mynediad lobi effeithiol i leihau sŵn.
- Sicrhau nad oes yfed dan oed, cyffuriau nac ymddygiad treisgar.
- Sicrhau bod yr asesiad risg yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Tîm Diogelwch wedi cofrestru gyda'r S.I.A.
- TCC yn weithredol bob amser.

2.2 Mae manylion llawn y mesurau rheoli mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu i'w gweld yn yr atodlen weithredol ar gyfer y drwydded bresennol yn ogystal ag yn y cais yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

3. **YMGYNGHORIAD**

3.1 Yn dilyn ymgynghori ar y cais, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn -

YMATEBION	**SYLWADAU**
Preswylydd Lleol	Llythyr - gwrthwynebu
Heddlu Gogledd Cymru	Sylwadau
Adran Gwarchod y Cyhoedd	Dim gwrthwynebiad
Adran Diogelwch Tân	Dim gwrthwynebiad
Cynghorydd	Dim gwrthwynebiad
Cyngor Cymuned	Dim gwrthwynebiad

3.2 Preswylydd cyfagos

Derbyniwyd un llythyr yn gwrthwynebu gan breswylydd cyfagos sy'n byw ar ben y lôn cyn pont y Rheilffordd ger y safle. Nodir bod holl draffig a cherddwyr o'r Eiddo yn mynd heibio'n agos iawn i'w heiddo. Mae gan y preswylydd lleol bryder y bydd yna

gynnydd mewn sŵn o'r safle yn sgil cwsmeriaid sydd wedi meddwi ac yn swnllyd yn gadael y safle yn hwyr yn y nos.

Yn ogystal, nododd bod y safle wedi bod yn Barc Gwyliau Teuluol bob amser gyda chyfyngiadau alcohol i gynnwys teuluoedd a bydd ehangu'r oriau yn newid deinameg y safle. Gellir darllen y sylwad yn llawn yn atodiad yr adroddiad hwn.

3.3 Heddlu Gogledd Cymru

Nid oedd tystiolaeth gan yr Heddlu i wrthwynebu'r cais; yn ogystal, roedd yr Heddlu wedi cyfarfod gyda Rheolwr Cyffredinol y Safle i ystyried argymhellion i gynnwys amodau teledu cylch cyfyng a'r Polisi Her 25, cadarnhawyd y bydd unrhyw gofnodion gwrthod a defnyddio cyffuriau yn cael eu defnyddio. Nodwyd hefyd nad oedd hawl i blant fod ar yr Eiddo wedi 23:00.

4. DIWEDDARIAD

1. Yn dilyn y cyfarfod; cadarnhaodd yr ymgeisydd dros e-bost y bydd holl awgrymiadau'r Heddlu yn cael eu cynnwys yn rhaglen weithredu'r drwydded newydd, os caiff ei chaniatáu gan y pwyllgor. (gweler yr e-bost atodol).

5 ARGYMHELLIAD

Argymhellir i'r Pwyllgor ystyried y gwrthwynebiad, a **chymeradwyo'r** cais yn unol â sylwadau'r Heddlu, a gofynion Deddf Trwyddedu 2003.